Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## HSC(4)-21-12 papur 1

## Ymchwiliad i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol - Cylch gorchwyl arfaethedig

---

**Cyflwyniad**

Yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2012, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad i edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru* ar draws y byrddau iechyd lleol a pha mor ddigonol ac effeithiol yw o ran atal a thrin diabetes yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried camau gweithredu posibl sydd eu hangen yn y dyfodol i lywio'r agenda hon.

Diben y papur hwn yw cyflwyno ychydig o wybodaeth gefndir, cylch gorchwyl arfaethedig a thystion posibl i'r Pwyllgor.

**Cafodd y briff hwn ei lunio gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

**Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Victoria Paris yn y Gwasanaeth Ymchwil**
**Estyniad ffôn 8678**
**E-bost: victoria.paris@wales.gov.uk**

Research Service

## Gwybodaeth gefndir

### *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (y Fframwaith)*

Sefydlwyd rhaglen y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol er mwyn gwella gwasanaethau drwy bennu safonau cenedlaethol i hybu ansawdd gwasanaeth a mynd i'r afael ag amrywiadau mewn gofal. Mae pob Fframwaith yn nodi safonau cenedlaethol, yn nodi'r ymyriadau a'r camau a fydd yn helpu i fodloni'r safonau hynny a'r cerrig milltir a gaiff eu defnyddio i fesur perfformiad y GIG.[1]

### *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes*

Ym mis Mawrth 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru - Strategaeth Gyflawni,* sef cynllun 10 mlynedd ar gyfer mynd i'r afael â'r cynnydd o ran pa mor gyffredin yw'r cyflwr, gwella gwasanaethau a gwella'r canlyniadau ar gyfer y rhai sydd wedi cael gwybod bod ganddynt ddiabetes.[2] Mae'n nodi cerrig milltir, trefniadau rheoli perfformiad, y camau i'w cymryd gan fyrddau iechyd lleol a systemau gofal cymdeithasol a'r rhaglenni craidd ar gyfer cynorthwyo'r ddarpariaeth leol. Yn 2008, gofynnwyd i fyrddau iechyd lleol lunio cynlluniau gweithredu a oedd yn cofnodi'r gweithgareddau ac yn gosod targedau a oedd yn arwain at gydymffurfio'n llawn â safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2013.

## Diabetes a pha mor gyffredin ydyw yng Nghymru

Mae diabetes mellitus, neu diabetes fel y caiff ei alw'n fwy aml, yn glefyd cronig sydd ar gael mewn dwy ffurf: math 1 a math 2. Mae gan dros 160,00 o bobl yng Nghymru ddiabetes, ac mae'n effeithio ar bob oedran, ac amcangyfrifir bod y cyflwr yn effeithio ar 66,000 yn fwy o bobl sydd heb gael diagnosis eto. Os na chaiff ei drin fel y dylai, gall diabetes arwain at afiechyd y galon, strôc, dallineb, methiant yr arennau ac wlserau ar y traed a all arwain at orfod torri'r traed i ffwrdd.[3]

- Math 1 yw'r math mwyaf anghyffredin; ac mae gan tua 15 y cant o'r bobl yng Nghymru y math hwn o ddiabetes. Nodweddion y math hwn yw pan fydd system imiwnedd y corff ei hun yn dinistrio celloedd-β y pancreas sy'n cynhyrchu inswlin. Drwy ddinistrio'r celloedd-β, mae hyn yn arwain at anallu'r pancreas i gynhyrchu inswlin, ac mae hyn yn caniatáu gormod o glwcos yn y gwaed. Mae'n datblygu'n bennaf mewn plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc.

---

[1] Llywodraeth Cymru, ***Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes (Cymru) Safonau*** (Saesneg yn unig) [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[2] Llywodraeth Cymru, ***Fframwaith Gwasanaethau Diabetes yng Nghymru - Strategaeth Gyflenwi***, mis Mawrth 2003 [fel ar 29 Mehefin 2012]
[3] Diabetes UK, ***Diabetes in the UK 2010: Key statistics on* diabetes**, mis Mawrth 2010 [fel ar 2 Gorffennaf 2012]

Mae gan 85 y cant o bobl sydd â diabetes fath 2. Mae'r symptomau'n datblygu pan na fydd y corff yn ymateb yn briodol i inswlin (ymwrthedd i inswlin), ac sydd wedi'i gyfuno, weithiau, â diffyg mewn lefelau inswlin absoliwt. Ceir diagnosis yn fwyaf cyffredin mewn oedolion dros 40 oed (er ei fod yn cael ei ganfod fwy a mwy mewn plant ac oedolion ifanc).[4]

### *Achosion a thriniaeth*

- Ni wyddom ar hyn o bryd beth sy'n achosi diabetes math 1, er mai'r tebygolrwydd yw bod ffactorau genetig etifeddol yn rhan o'r rheswm.[5] Mae angen pigiadau dyddiol o inswlin ar y bobl hyn, a gallai methu â gwneud hyn arwain at hyperglycaemia (gormod o siwgr yn y gwaed), gan arwain at ketoacidosis diabetig a chymhlethdodau a allai beryglu bywyd.
- Ni does modd deall eto beth yw achos diabetes math 2, er y gwyddom fod diet gwael a bod dros bwysau yn ffactorau risg.[6] Nid yw'r symptomau fel arfer, mor amlwg â'r rhai ar gyfer math 1. O ganlyniad, efallai na cheir diagnosis ohono am flynyddoedd ar ôl iddo ddechrau, ar ôl i'r cymhlethdodau ddod i'r amlwg.[7] I lawer o bobl sydd â diabetes math 2, y peth cyntaf i'w wneud yw sefydlu newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw. Y gwir yw, fodd bynnag, fod diabetes math 2 yn gwaethygu gydag amser, ac efallai na fydd diet ac ymarfer corff yn ddigon i reoli glwcos y gwaed.[8] Gellir gwella hyperglycaemia gan amrywiaeth o fesurau a meddyginiaethau sy'n gwella sensitifrwydd i inswlin, neu leihau'r glwcos a gaiff ei gynhyrchu yn yr afu.

## Canllaw

- Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) *Type 1 diabetes: diagnosis and management of type 1 diabetes in children, young people and adults*[9] yn rhoi canllawiau ynghylch amrywiaeth o agweddau ar reoli diabetes math 1.
- Ym mis Mai 2007 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r *Cynllun ar gyfer rheoli Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru: Canllawiau Consensws*[10], yn amlinellu'r gofal y dylid ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â diabetes math 1.

---

[4] Diabetes UK, ***Diabetes yng Nghymru*** [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[5] Huber A et al., (2008), ***Joint Genetic Susceptibility to Type 1 Diabetes and Autoimmune Thyroiditis: From Epidemiology to Mechanisms***, Endocrine Reviews, 29 (6), 697-725.
[6] Diabetes UK, ***Causes and risk factors*** [fel ar 2 Gorffennaf 2012]
[7] Sefydliad Iechyd y Byd, ***Diabetes: Fact sheet no. 312***, Awst 2011 [fel ar 2 Gorffennaf 2012]
[8] NHS Choices, ***Diabetes, type -2*** [fel ar 2 Gorffennaf 2012]
[9] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, ***Type 1 diabetes: diagnosis and management of type 1 diabetes in children, young people and adults***, mis Gorffennaf 2004 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[10] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun ar gyfer rheoli Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru: Canllawiau Consensws***, mis Mai 2007 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]

- Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd NICE ganllawiau clinigol *Diabetes yn ystod beichiogrwydd*[11] sy'n rhoi gwybodaeth am reoli diabetes a'r cymhlethdodau o'r cyfnod cyn beichiogi i'r cyfnod ar ôl genedigaeth.
- Ym mis Hydref 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Designed for the Management of Adults with Diabetes Mellitus across Wales: Consensus Guidelines*[12], er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu gofynion ansawdd Fframwaith Safonau Cenedlaethol Diabetes Cymru.
- Yn 2008 cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr *Type 2 Diabetes*[13] a oedd yn darparu canllawiau clinigol cenedlaethol ar gyfer rheoli diabetes math 2 ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd.
- Ym mis Mawrth 2011 cyhoeddodd NICE *Quality Standards Programme - Diabetes in adults*[14] a oedd yn rhoi cyngor ynghylch rheoli diabetes yn glinigol mewn oedolion, ac eithrio plant, pobl ifanc a menywod beichiog.
- Yn 2012 cyhoeddodd y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol *National Diabetes Audit 2010-2011 – Report 1: Care Processes and Treatment Targets*[15] a oedd yn rhoi gwybodaeth am ba mor gyffredin yw diabetes, epidemioleg a gofal yng Nghymru a Lloegr.
- Yn 2012 cyhoeddodd y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol *National Diabetes Inpatient Audit 2011*[16] a oedd yn rhoi gwybodaeth am ansawdd y gofal a gaiff cleifion sydd â diabetes mewn ysbytai yng Nghymru a Lloegr.

---

[11] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, ***Diabetes yn ystod beichiogrwydd***, mis Mawrth 2008 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[12] Llywodreth Cymru, ***Designed for the Management of Adults in Diabetes Mellitus across Wales: Consensus Guidelines***, mis Hydref 2008 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[13] Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ***Type 2 Diabetes***, 2008 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[14] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, ***Quality standard topic: Diabetes in adults***, mis Mawrth 2011 [fel 3 Gorffennaf 2012]
[15] Y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ***National Diabetes Audit 2010-2011 – Report 1: Care Process and Treatment Targets***, 2012 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]
[16] Y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ***National Diabetes Inpatient Audit 2011***, 2012 [fel ar 3 Gorffennaf 2012]

## Cylch Gorchwyl Arfaethedig

Yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2012, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad i edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru* ar draws y byrddau iechyd lleol a pha mor ddigonol ac effeithiol yw o ran atal a thrin diabetes yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried camau gweithredu posibl sydd eu hangen yn y dyfodol i lywio'r agenda hon.

## Tystion

Yr awgrym yw bod y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan y canlynol:

- Cyrff y sector cyhoeddus, e.e. y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a / neu'r Prif Swyddog Meddygol, Grwpiau Cynllunio a Darpariaeth Diabetes y Byrddiau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetes Cymru, Iechyd Cyheoddus Cymru;
- Cyrff proffesiynol, e.e. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Cymdeithas Feddygol Prydain, Fferylliaeth Gymunedol Cymru;
- Sefydliadau'r Trydydd Sector, e.e. Diabetes UK Cymru, Cefnogaeth Cydradd Diabetes, Sefydliad Ymchwil Diabetes Ieuenctid, Rhwydwaith Ymchwil Diabetes Cymru

Efallai yr hoffai'r Aelodau ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan bartïon sydd â diddordeb yn ychwnaegol at yr alwad gyffredinol am dystiolaeth.